# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Parc Wern**

**CARTREF GOFAL PARC WERN**
**FFORDD PARKLANDS**
**Rhydaman**
**SA18 3TD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Parc Wern

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | PARKCARE HOMES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 59 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Mawrth 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch yng nghartref Parc Wern. Maent yn cael gofal a chymorth cyfeillgar a thosturiol, ac mae'r gwasanaeth yn cymryd mesurau i gefnogi'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae dogfennaeth gofal ar waith i gefnogi'r staff gofal i ddiwallu anghenion y bobl. Mae angen gwneud gwelliannau i'r gwaith o gofnodi siartiau monitro ategol. Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod.Mae'r bobl yn cael deiet cytbwys a bwydlen amrywiol. Mae mesurau rheoli heintiau ar waith i helpu i leihau'r risg o drosglwyddo heintiau posibl. Mae systemau ar waith ar gyfer hwyluso'r gwaith o reoli a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Caiff llesiant y bobl ei hyrwyddo drwy fyw mewn amgylchedd sy'n lân, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer eu hanghenion. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda. Dywedodd y staff gofal eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel a'u bod wedi eu hyfforddi'n addas.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch yng nghartref Parc Wern. Mae'r staff yn garedig ac yn ofalgar wrth ryngweithio â'r bobl. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn canmol ymddygiad a dull y staff o weithredu. Defnyddir proses 'Preswylydd y Dydd' fel bod pob adran yn cydlynu eu cymorth a'u ffocws ar bob person yn rheolaidd. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi dau gydgysylltydd gweithgareddau, sy'n trefnu ac yn ymgysylltu'r bobl mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae'n adnodd cadarnhaol a phwysig iawn sy'n gwella ac yn hyrwyddo llesiant y bobl. Mae gan y gwasanaeth gydberthnasau da â'r perthnasau, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ac yn eu diweddaru ac yn eu cynnwys yng ngofal eu perthnasau. Gall ffrindiau a pherthnasau ymweld pan ddymunant. Mae gan y gwasanaeth amgylchedd sy'n gyfeillgar iawn i deuluoedd ac sy'n canolbwyntio ar y teulu.

Mae'r gwasanaeth yn cymryd mesurau i gefnogi'r bobl i fyw mor iach â phosibl. Rhoddir gwybod am faterion i'r gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol. Mae'r cynlluniau personol yn ddigon manwl, yn canolbwyntio ar y canlyniadau ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae angen gwneud gwelliannau i'r ffordd mae staff yn cofnodi ymyriadau gofal ar siartiau monitro. Mae'r opsiynau bwyd yn gytbwys ac mae anghenion deietegol yn cael eu deall. Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth wedi'i rhagnodi yn ôl y cyfarwyddyd. Mae mesurau rheoli heintiau ar waith sydd wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant, Cartref i bobl hŷn sy'n wynebu dementia a/neu anghenion nyrsio yw Parc Wern. Mae'r ystafelloedd gwely yn gyfforddus, wedi'u personoli ac mae digon o ardaloedd cymunedol ac ystafelloedd ymolchi a mynediad i ardal awyr agored. Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Mae cymhorthion symudedd addas ar gael i helpu'r bobl lle bo angen.

Mae systemau ar waith i helpu i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn helpu i gefnogi'r staff gofal er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau diogelu a sut y dylent ymateb i faterion posibl. Maent yn teimlo'n hyderus os byddent yn codi mater â'r rheolwr, y byddai'n cael ei ymateb iddo yn briodol. Mae'r prosesau recriwtio yn effeithiol ac mae hyfforddiant parhaol yn cefnogi datblygiad parhaus. Caiff digwyddiadau a damweiniau eu cofnodi a chymerir camau priodol gan y gwasanaeth mewn ymateb iddynt. Caiff y risgiau i'r bobl eu hasesu, ac mae cynlluniau rheoli ar waith. Mae'r archwiliadau sicrhau ansawdd parhaus yn gwneud yn siŵr bod y systemau yn parhau'n effeithiol ac y caiff gwelliannau eu nodi a'u hystyried. Mae mynediad i'r gwasanaeth wedi'i gyfyngu i unigolion awdurdodedig.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth caredig a thosturiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff gofal a'r bobl yn amyneddgar ac yn barchus. Roedd y bobl yn ymddangos fel pe baent yn cael gofal da ac wedi setlo yn eu hamgylchedd ar y cyfan. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus â'r cymorth a gânt a chafodd ei ddisgrifio fel "*brilliant*". Cawsom adborth cadarnhaol iawn gan deuluoedd y bobl, roeddent yn dweud wrthym eu bod yn "*very pleased*", "*there has been a hundred percent improvement*", "*staff are excellent*", "*I can go away knowing they're well cared for and in good hands*", a "*the carers are wonderful with them*". Dywedodd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae dogfennaeth gofal ar waith i gefnogi'r staff gofal i ddiwallu anghenion y bobl. Mae cynlluniau personol yn cynnwys digon o fanylder am y math o ofal a chymorth sydd eu hangen ar y bobl a'r ffordd orau o'u darparu. Mae asesiadau risg ategol ar waith, er enghraifft pan fydd rhywun yn wynebu risg o ddatblygu briwiau ar ei groen. Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn manylu sut y caiff risgiau eu rheoli, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'n ofynnol i'r aelodau o'r staff gofnodi pob tasg gofal y mae'n ei gwblhau a darparu manylion am y dasg os bydd angen hynny ar gyfer y system cynllunio gofal electronig. O'r wybodaeth hon mae cofnodion dyddiol yn cael eu creu. Er bod siartiau monitro ategol ar waith, nid yw'r rhain yn cael eu cwblhau'n gywir bob amser ac felly nid ydynt yn fanwl gywir bob amser. Nodwyd gennym fod hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth weithredu i ymdrin â hyn. Mae'r gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau priodol i'r gweithwyr iechyd proffesiynol allanol ac yn gweithio gyda nhw yn barhaus. Maent yn gweithredu ar argymhellion ac ar gyfarwyddyd ac yn ymgorffori hyn i gynlluniau personol. Mae ceisiadau wedi cael eu gwneud o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid lle nad oes gan y bobl alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u llety ac y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid i'w cadw'n ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) pan gaiff cais ei wneud, sy'n welliant yr aethpwyd ati i weithio arni ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r gwasanaeth yn manylu anghenion y bobl o amgylch Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'u galluoedd i wneud penderfyniadau'n dda iawn yn y cynlluniau personol.

Mae'r bobl yn cael deiet cytbwys a bwydlen amrywiol. Er bod y fwydlen yn cynnig amrywiaeth, mae staff y gegin yn cymryd ceisiadau bob bore i weld a fyddai'n well gan y bobl rywbeth arall. Mae'r bwyd yn edrych yn flasus ac mae maint y prydau'n briodol. Mae gan y bobl ddiodydd i'w helpu i gynnal eu lefelau hydradu drwy gydol y dydd a chânt eu cefnogi adeg amseroedd bwyd pan fydd angen. Mae anghenion a dewisiadau dietegol yn cael eu deall ac maent ar gael i staff y gegin, a ddywedodd wrthym am rai o anghenion penodol y bobl. Roedd y wybodaeth hon yn cyfateb i'r wybodaeth yng nghynlluniau personol y bobl.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith i helpu i leihau'r risg o drosglwyddo heintiau posibl. Mae cyflenwad o Gyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff. Mae polisi rheoli heintiau ar waith y mae'r staff yn ymwybodol ohono ac mae'r aelodau o'r staff yn deall eu cyfrifoldebau. Mae tîm o staff domestig mewnol wedi cymryd drosodd gan asiantaeth glanhau ers yr arolygiad diwethaf. Mae amserlenni glanhau dyddiol ar waith, a gwnaethom eu harsylwi'n cael eu cwblhau. Mae'r arferion golchi dillad yn helpu i leihau'r risg o haint. Cynhelir archwiliadau rheoli heintiau yn rheolaidd. Mae rolau Hyrwyddwr Rheoli ac Atal Heintiau wedi cael eu pennu i staff gofal. Mae'r rhain yn welliannau yr aethpwyd ati i'w rhoi ar waith ers yr arolygiad diwethaf.

Mae systemau ar waith ar gyfer hwyluso'r gwaith o reoli a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel a dim ond staff gofal awdurdodedig all gael gafael arnynt. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff nyrsio yn rhoi meddyginiaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwr, heb fylchau na gwallau. Mae'r staff nyrsio yn cael hyfforddiant ar y ffordd y dylent reoli a rhoi meddyginiaeth. Mae gan y gwasanaeth bolisi meddyginiaeth cyfredol ar waith. Caiff meddyginiaeth ei harchwilio'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Caiff llesiant y bobl ei hyrwyddo drwy fyw mewn amgylchedd sy'n lân, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer eu hanghenion. Cartref preswyl yw Parc Wern ar gyrion Rhydaman, wedi'i leoli dros un llawr, ac yn cynnwys tair ardal fyw a chymuned wahanol. Mae'r gwasanaeth yn lân, yn daclus ac nid oes unrhyw arogleuon gwael yno. Mae'n ddiogel rhag mynediad heb awdurdod gydag ymwelwyr yn gorfod llofnodi i mewn cyn cyrraedd ac wrth adael.

Mae'r ystafelloedd gwely yn gyfforddus ac wedi'u teilwra at chwaeth unigol y bobl, gan hyrwyddo ymdeimlad o berthyn. Mae gan bob cymuned ardal lolfa lle gall y bobl ddewis treulio eu hamser yno, gyda golygfeydd deinadol o'r cefn gwlad cyfagos. Mae digon o gyfleusterau toiled ac ymolchi drwy'r cartref, gyda chymhorthion clyw a chyfarpar ar waith pan fo'u hangen. Defnyddir ystafell fawr ar gyfer gweithgareddau fel cyngherddau ac mae teledu â sgrin fawr yno i'r bobl wylio rhaglenni teledu gyda'i gilydd. Mae'r ardaloedd cymunedol yn daclus ac yn gartrefol. Mae cyfleusterau'r gegin yn briodol i'r cartref a chawsant Sgôr Hylendid Bwyd o 5, sy'n golygu eu bod yn 'dda iawn'. Mae gardd â phatio yn yr iard ganolog yn ddiogel ac mae seddi yno i'r bobl eu defnyddio.

Mae amgylchedd y cartref yn ddiogel. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu rhoi mewn cyfleusterau y gellir eu cloi, yn unol â rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Mae cyfyngwyr ar y ffenestri wedi'u gosod ym mhob un o'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi a welsom. Nid oes unrhyw rwystrau i'r allanfeydd tân, ac nid oes unrhyw beryglon baglu amlwg yn gyffredinol. Caiff dyletswyddau glanhau eu cyflawni bob dydd. Mae trefniadau cynnal a chadw ac atgyweirio ar waith. Mae cofnodion cynnal a chadw yn cadarnhau y caiff profion ar gyfleustodau eu cwblhau yn rheolaidd. Mae'r gwaith o archwilio a gwasanaethu'r cyfarpar yn gyfredol, ac mae'r profion diogelwch tân a'r ymarferion tân wedi cael eu cwblhau. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r staff pa gymorth fydd ei angen ar y bobl os bydd argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda. Mae ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud i wella'r gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae trefniadau llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd ar waith i helpu i gefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth. Mae'r rhain yn helpu i nodi ble y mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda, gan ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis er mwyn cyfarfod y bobl a'r staff, a chwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis i ddiwallu'r anghenion rheoliadol. Mae tîm rheoli newydd wedi'i benodi sy'n cefnogi rheolwr y gwasanaeth ac wedi cryfhau'r gwaith o redeg y gwasanaeth ymhellach. Mae'r gwasanaeth yn agored ac yn dryloyw, gan wneud yr hysbysiadau sy'n rhaid eu gwneud yn gyfreithiol i AGC am ddigwyddiadau yn y gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith, er enghraifft ar gyfer cwynion, meddyginiaeth, chwythu'r chwiban a diogelu. Mae'r gwasanaeth yn casglu safbwyntiau'r bobl, eu perthnasau a'r staff gofal.  Mae gweithdrefnau ar waith ymdrin â chwynion.

Dywedodd y staff gofal eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym "*it's really good working here*", "*it feels like it's getting better – there's more structure*", *I like it very much*", a "*there's a nice atmosphere*". Dywedodd y staff gofal wrthym hefyd bod y tîm rheoli yn "*better now – it's more stable*", "*I feel supported*", a'u bod yn "*really helpful*". Mae'r tîm o staff wedi setlo mwy, ac mae'r defnydd o staff asiantaeth wedi lleihau'n sylweddol. Mae hyn yn bwysig er mwyn hyrwyddo parhad gofal ac mae hefyd wedi hyrwyddo morâl mwy cadarnhaol ymysg y staff. Mae'r tîm wedi setlo'n dda ac mae trosiant y staff gofal yn isel. Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd er mwyn myfyrio ar eu perfformiad ac ar eu datblygiad personol, gan nodi unrhyw gymorth a allai fod angen ei arnynt a thrafod unrhyw broblemau. Cyfrifir y lefelau staffio yn ôl anghenion y bobl ac ar y defnydd o adnodd dibyniaeth. Dangosodd y rota bod targed y lefelau staffio yn cael ei fodloni ac roedd y rota'n adlewyrchu'r staffio ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel a'u bod wedi eu hyfforddi'n addas. Mae ffeiliau'r staff yn dangos bod y trefniadau recriwtio cywir yn cael eu defnyddio ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn gyfreithiol, megis gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thystiolaeth o hunaniaeth. Mae'r staff gofal yn dechrau gweithio unwaith i'r gwiriadau cyn cyflogaeth gael eu cwblhau. Mae aelodau newydd o staff gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r staff nyrsio'n cael eu cofrestru â'u corff rheoleiddio proffesiynol. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff gofal wedi cael hyfforddiant mewn meysydd gofal craidd, gyda hyfforddiant arbenigol ar gael, er enghraifft o amgylch iechyd y croen. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant i allu ymgymryd â'u dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 59 | Nid yw'r siartiau ail-leoli yn gywir. | Newydd |
| 60 | Nid yw'r darparwr yn rhoi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth yn gyson am ddigwyddiadau fel sy'n ofynnol. | Cyflawnwyd |
| 56 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cynnal safonau hylendid cyson ac nid oes ganddo drefniadau priodol ar waith i waredu gwastraff cyffredinol na gwastraff clinigol, er mwyn sicrhau trefniadau digonol o ran hylendid a rheoli heintiau. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/04/2024